



Maniffesto Kinship ar gyfer Cymru



Ebrill 2021



Ein gweledigaeth yw cymdeithas
lle mae gofalwyr sy'n berthnasau
a'r plant maen nhw'n gofalu
amdanynt yn cael eu cydnabod, eu
gwerthfawrogi a'u cefnogi.

Allwch chi ein helpu?

Gwybodaeth am Kinship

EKinship yw'r prif elusen gofal gan berthnasau yng Nghymru a Lloegr. Rydym ni'n cynnig dealltwriaeth a chefnogaeth ariannol, cyfreithiol, ymarferol ac emosiynol i ofalwyr sy'n berthnasau o'r foment pan fydd angen hynny arnyn nhw, a chyhyd ag y bydd yr angen yno.

Rydym yma i **bob** gofalwr sy'n berthynas.

Pob mam-gu, tad-cu, brawd, chwaer, modryb, ewythr, perthynas arall a ffrind sy'n camu i'r bwlch i fagu plant pan fydd eu rhieni'n methu gwneud hynny.

Rydym am weld pob teulu o berthnasau yn cael y gydnabyddiaeth a'r gefnogaeth mae arnyn nhw eu hangen, ac y maen nhw'n eu haeddu.

Mae gofalwyr sy'n berthnasau yn gryf ac yn benderfynol. Gyda'i gilydd, maen nhw'n bwerus. Rydym yn eu helpu i greu cymunedau cefnogaeth a gweithredu trwy gysylltu teuluoedd yn lleol ac ar draws Cymru a Lloegr.

Ein manifesto

Rydym yn galw ar bob ymgeisydd yng Nghymru i addo cefnogaeth i sicrhau bod gofalwyr sy'n berthnasau a'u plant yng Nghymru yn cael eu **cydnabod**, eu **gwerthfawrogi** a'u **cefnogi**.



Gwybodaeth am ofal gan berthnasau yng Nghymru

Cymru sydd â'r gyfran uchaf o ofal gan berthnasau yn y Deyrnas Unedig.

Mae gofalwyr sy'n berthnasau yn camu i'r bwlch i ofalu am blant pan fydd eu rhieni'n methu gofalu amdanynt ac yn cadw teuluoedd gyda'i gilydd.

Amcangyfrifir bod **10,000 o blant** yng Nghymru yn cael eu magu gan berthnasau neu ffrindiau – mae hynny'n cyfateb i un ym mhob **67 o blant**.



Mae plant sydd â phrofiad o amddifadedd lluosog yng Nghymru bron dair gwaith yn fwy tebygol o fod yn byw gyda pherthynas o gymharu â phlant sydd heb brofiad o amddifadedd.

O'u cymharu â phlant sy'n byw gydag o leiaf un rhiant, mae plant sy'n cael gofal gan berthnasau yng Nghymru ddwywaith yn fwy tebygol o fod ag anabledd neu broblem iechyd hirdymor sy'n cyfyngu ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Mae mwy na thri chwarter (78%) o'r plant sy'n cael gofal gan berthnasau yng Nghymru yn tyfu i fyny ar aelwydydd difreintiedig.

Yn aml iawn, mae'r gefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr sy'n berthnasau yng Nghymru yn llawer mwy cyfyngedig na'r hyn y mae pobl sy'n dod yn ofalwyr maeth neu'n fabwysiadwyr yn ei gael. Pennir y gefnogaeth yn ôl gorchymyn cyfreithiol, **yn hytrach nag yn ôl anghenion y plant**.

Allwch chi addo cefnogi gofalwyr sy'n berthnasau yng Nghymru?





Deddf Gofal gan Berthnasau

Gall yr anghydraddoldeb presennol yn y gefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr sy'n berthnasau effeithio ar bopeth o'r **cymorth ariannol** ac **ymarferol** y gallant ddisgwyl ei gael, i ddewis ysgol a mynediad at gyllid ar gyfer therapïau arbennig i blant sydd wedi dioddef trawma.

Rhaid i **Lywodraeth Cymru** fuddsoddi ar bob lefel i sicrhau bod gan awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol yr adnoddau i gefnogi teuluoedd o berthnasau.

Mae angen deddfwriaeth i sicrhau bod gofal gan berthnasau yn cael ei gydnabod o dan y gyfraith a rhaid buddsoddi ar unwaith i sicrhau bod awdurdodau lleol yn derbyn cyllid er mwyn rhoi'r gefnogaeth angenrheidiol i ofalwyr sy'n berthnasau.

Allwch chi addo cefnogi cydraddoldeb i ofalwyr sy'n berthnasau yng Nghymru?





Cyngor arbenigol ac annibynnol

Mae bywydau teuluoedd o berthnasau yn newid trwy'r amser. Mae llawer o ofalwyr sy'n berthnasau yn camu i'r bwlch yn sydyn mewn hinsawdd o fraw ac argyfwng, heb gael fawr o amser na mynediad at gyngor a gwybodaeth annibynnol, na chefnogaeth i ystyried eu dewisiadau.

Eto i gyd, mae gofalwyr sy'n berthnasau yn aml yn teimlo eu bod yn cael eu cosbi am y dymuniad syml hwn i wneud y peth iawn. O beidio â chael gwybod am y cymorth y dylent ei gael i wybodaeth am eu diogelwch yn y dyfodol.

Dônt i ddeall, yn nes ymlaen, fod y cymorth a gânt yn cael ei bennu gan orchymyn cyfreithiol y plentyn – a bod hynny gan amlaf yn ddewisol, yn gallu bod yn destun prawf modd, o dan derfynau amser neu'n agored i gael ei dorri am byth. Mae cael gafael ar gymorth cyfreithiol ac ariannol yn gallu cymryd amser hefyd.

Dylai gofalwyr sy'n berthnasau yng Nghymru gael mynediad at wybodaeth a chyngor arbenigol ac annibynnol sy'n ymwneud yn benodol ag anghenion pob teulu o berthnasau cyn gynted ag y gofynnir iddynt ofalu am y plentyn.

Mae angen hefyd iddynt gael mynediad at gyngor cyfreithiol annibynnol, am ddim er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch y trefniadau gofal sydd ganddynt ar gyfer y plentyn.

Dylai'r mynediad at gyngor fod ar gael iddynt cyhyd ag y bydd angen er mwyn iddyn nhw fedru derbyn y lwfansau a'r budd-daliadau y mae ganddyn nhw hawl i'w cael.

Dylid cynnig a datblygu grwpiau cymorth cymheiriaid yn lleol, er mwyn sicrhau bod gofalwyr sy'n berthnasau yn cael cyswllt allweddol â rhwydweithiau o gymheiriaid, sef pobl sy'n deall sut beth yw bod yn ofalwr sy'n berthynas yng Nghymru.



Cefnogaeth gynhwysfawr

Mae plant sy'n cael eu magu gan berthnasau yn aml yn wynebu trawma ac esgeulustod. Bydd eu hanghenion yn dod i'r golwg gydag amser ac yn parhau.

Mae gofalwyr sy'n berthnasau yn debygol o fod yn hŷn, yn llai iach, o ardaloedd difreintiedig ac yn wynebu trafferthion ariannol.

Gall yr heriau hyn barhau gyda threfniadau cyswllt anodd ac amgylchiadau newidiol, parhaus yn creu anawsterau ariannol, problemau tai a mathau eraill o galedi.

Mae llawer o ofalwyr sy'n berthnasau yn teimlo'n ynysig oherwydd y pwysau unigryw sydd ynghlwm wrth fagu plentyn sy'n berthynas.

Rydym ni'n credu bod angen cefnogaeth gynhwysfawr, barhaus ar ofalwyr sy'n berthnasau yng Nghymru.

Dylai'r gefnogaeth gynnwys:

- **Cymorth ariannol** sydd ar gael ble bynnag mae'r gofalwr sy'n berthynas yn byw, gydag isafswm lwfans cenedlaethol i dalu costau magu plentyn sy'n berthynas.
- **Cymorth un-i-un a chymorth cymheiriaid** wedi'i drefnu a'i gefnogi gan awdurdodau lleol neu asiantaethau gwirfoddol ym mhob awdurdod lleol, beth bynnag yw'r gorchymyn cyfreithiol sydd gan y gofalwr sy'n berthynas ar gyfer y plentyn y mae'n ei fagu.





Cefnogaeth gynhwysfawr parhad:

Dylai'r gefnogaeth hefyd gynnwys:

- Cefnogi **trefniadau cyswllt** rhwng plant sy'n cael eu magu gan berthynas a'u rhieni, eu brodyr a'u chwiorydd neu aelodau eraill o'r teulu er mwyn sicrhau diogelwch a lles y plant.
- **Tai addas** sy'n cydnabod newidiadau sydyn i anghenion teuluoedd o berthnasau, gyda'r awdurdod lleol yn rhoi mwy o flaenoriaeth i ddarparu ac addasu.
- **Hyfforddiant** penodol wedi'i deilwra sydd ar gael i ofalwyr sy'n berthnasau os ydyn nhw'n teimlo y gallent gael budd ohono.



Wnewch chi addo cefnogi pecyn cynhwysfawr o gefnogaeth ar gyfer gofalwyr sy'n berthnasau yng Nghymru?





Rhwydwaith gwybodus a chefnogol

Yr unig ffordd i fodloni anghenion pobl ifanc yw bod gweithwyr proffesiynol mewn ystod o asiantaethau, gan gynnwys y sector gwirfoddol, yn cydweithio i ddarparu ymateb integredig i'r heriau maen nhw'n eu hwynebu.

Dylai plant sy'n cael eu magu yng ngofal perthnasau gael hawl i dderbyn ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a chefnogaeth pawb o'u cwmpas, cyhyd ag y bydd angen hynny arnynt. Mae hyn yn cynnwys gwell cefnogaeth wrth bontio i fyw'n annibynnol.

Dylai awdurdodau lleol neu sefydliadau gwirfoddol gynyddu ymwybyddiaeth a chynnig hyfforddiant ynghylch gofal gan berthnasau i'r holl sefydliadau a darparwyr gwasanaeth perthnasol. Bydd hyn yn cynnwys awdurdodau lleol, ysgolion, meddygfeydd meddygon teulu, canolfannau gwaith, gwasanaethau cynghori sefydliadau gwirfoddol, a grwpiau cymunedol.

Wnewch chi addo cefnogi rhoi cymorth llawn i blant a phobl ifanc yng Nghymru trwy ymateb integredig?



Diolch

Gwnewch addewid i gefnogi ar-lein:



kinship.org.uk/welsh-election-pledge

Gwnewch addewid i gefnogi ar y cyfryngau cymdeithasol:

Rwy'n addo cefnogi gofalwyr sy'n berthnasau yng Nghymru os caf fy ethol yn Aelod o'r Senedd. Rwy'n cefnogi maniffesto @KinshipCharity ar gyfer yr holl ofalwyr sy'n berthnasau yng Nghymru. Rwy'n cydnabod, yn gwerthfawrogi ac yn cefnogi gofalwyr sy'n berthnasau yng Nghymru. #KinshipCareMatters

Am fwy o wybodaeth:

Os ydych yn Aelod o'r Senedd, cysylltwch â ni trwy cymru@kinship.org.uk i gael briffiadau unigol neu wybodaeth am ofal gan berthnasau yng Nghymru.



@kinshipcharity



www.kinship.org.uk



@kinshipcarecharity

Kinship is the working name for Grandparents Plus, which is a company limited by guarantee registered in England and Wales under number 4454103 and registered as a charity under number 1093975